



Priodoldeb i Ymarfer

**Apelio yn erbyn methiant i
fodloni'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith yng Nghymru**

Mae fy Nghorff Priodol wedi penderfynu fy mod wedi methu â bodloni'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith, neu fod angen mwy o amser arnaf i'w bodloni. Sut gallaf apelio?

Bydd angen i chi ddarllen yr Arweiniad amgaeedig yn ofalus.

Dim ond unwaith i chi dderbyn y llythyr gan eich awdurdod lleol (a ddisgrifir fel 'y Corff Priodol' at ddibenion Sefydlu) sy'n cadarnhau naill ai eich bod wedi methu â bodloni'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith neu fod mwy o amser wedi'i roi i chi y gallwch apelio. Yna mae gennych **20 diwrnod gwaith** i gyflwyno'ch apêl i CGA os nad ydych yn cytuno gyda'r penderfyniad.

Mae CGA yn argymhell yn gryf y dylech gysylltu â'ch undeb ar yr adeg hon er mwyn iddo roi'r arweiniad a'r cymorth y bydd eu hangen arnoch.

Pam rwyf wedi methu, neu pam rhoddwyd estyniad?

Mae'n rhaid i'r Corff Priodol roi gwybod i chi yn ysgrifenedig pam ei fod wedi penderfynu eich bod naill ai wedi methu â bodloni'r Safonau, neu fod angen mwy o amser arnoch i wneud hynny.

A wyf wedi gweithredu'n groes i 'safon' berfformiad?

Mae gan Gorff Priodol farn eisoes am hyn a bydd yn cadarnhau hynny, neu bydd wedi cadarnhau hynny, gyda chi. Os byddwch yn apelio, rôl CGA yw penderfynu a yw'n cytuno ai peidio gyda phenderfyniad y Corff Priodol, ac felly a ddylai ganiatáu eich apêl ai peidio.

Mae gan CGA God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n ganllaw i'r safonau y gall dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd eu disgwyl gan bersonau cofrestredig, ac mae'n helpu ymarferwyr addysg i ddeall yr hyn mae eraill yn ei ddisgwyl ganddynt fel gweithwyr proffesiynol.

Mae'r Cod hefyd yn nodi'r disgwyliad ar athrawon ysgol newydd gymhwyso i fodloni'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith.

Beth sy'n digwydd ar ôl i fi gyflwyno fy apêl?

Bydd CGA yn hysbysu'r Corff Priodol am eich apêl.

Gallwch chi a'r Corff Priodol fel eich gilydd ofyn i CGA wrando ar eich apêl yn gyhoeddus. Os yw CGA yn gwrandao ar yr apêl yn y modd hwn, cewch chi a'r Corff Priodol eich gwahodd i'r gwrandawriad.

Bydd CGA yn anfon Rhybudd Gweithrediadau Gwrandawriad at y ddau ohonoch, ac yn gofyn i chi ymateb.

Beth sy'n digwydd mewn gwrandawriad o'r Pwyllgor Apeliadau Sefydlu?

Ar ôl clywed gennych chi a'r Corff Priodol, gall y Pwyllgor benderfynu:

- caniatáu eich apêl
- gwrthod eich apêl, neu
- roi mwy o amser i chi fodloni'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith

Os caiff eich apêl ei gwrthod, caiff eich cofrestrriad yng Nghymru ei ddileu am byth. Mae hyn yn golygu na chewch barhau i weithio fel athro ysgol mewn ysgol y wladwriaeth neu ysgol arbennig yng Nghymru.

Mae gwybodaeth fanylach am yr hyn i'w ddisgwyl mewn gwrandawriad i'w chael yn y daflen 'Gwybodaeth i athrawon ysgol newydd gymhwyso: rhoi tystiolaeth mewn gwrandawriad'.

Nid wyf yn aelod o undeb. Beth dylwn ei wneud?

Mae CGA yn eich annog yn gryf i geisio cyngor a chymorth proffesiynol gan, er enghraifft, undeb neu gymdeithas broffesiynol cyn gynted ag y byddwch yn penderfynu nad ydych yn fodlon ar benderfyniad y Corff Priodol. Os nad ydych yn aelod o sefydliad o'r fath, dylech geisio cael cyngor proffesiynol arall, er enghraifft, gan gyfreithiwr neu swyddfa Cyngor ar Bopeth cyn ymateb.

Dylech nodi bod cyllid cyfreithiol yn annhebygol o fod ar gael i athrawon ysgol newydd gymhwyso sy'n cyflwyno apêl o dan y gweithdrefnau hyn. Ni fyddwch yn gallu hawlio eich costau yn ôl gan neb arall sy'n gysylltiedig.

Ynghylch y daflen hon

Crynodeb bras yw'r wybodaeth yn y daflen hon o weithdrefnau apeliadau Sefydlu CGA.

O dan unrhyw amgylchiadau, *Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015*, ac *Arweiniad a Gweithdrefnau ar gyfer Gwrando ar Apeliadau Sefydlu 2017* [CGA](#) sy'n cael blaenoriaeth. Mae'r Arweiniad a gwybodaeth arall am rôl reoleiddio CGA i'w gweld yn www.cga.cymru

Nid oes unrhyw reolau cyffredinol yn berthnasol wrth benderfynu a ddylid caniatáu apêl athro ysgol ai peidio.

Cysylltiadau allweddol

Cyfeiriad	Y Tîm Priodoldeb i Ymarfer , Cyngor y Gweithlu Addysg, 9fed Llawr, Eastgate House, 35-43 Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB
Ffôn	029 2046 0099
Rhif ffacs	029 2047 5850

E-bost priodoldebiymarfer@cga.cymru

Caiff personau cofrestredig (athrawon ysgol) sy'n apelio gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i CGA yn Gymraeg neu Saesneg.

Egwyddorion sy'n rheoli gwaith apeliadau Sefydlu'r Cyngor

- **Tegwch a chyfiawnder naturiol.** Mae Pwyllgorau'n trin pob apêl ar sail ei rhinweddau, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.
- **Agoredrwydd a budd y cyhoedd.** Mae'r Cyngor yn cydnabod bod budd y cyhoedd yn gysylltiedig â thryloywder ei weithdrefnau, a'i allu i gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Mae gofyn i Bwyllgorau'r Cyngor gydbwysu buddiannau cystadleuol budd y cyhoedd yn erbyn budd yr athro neu athrawes.

Caiff Pwyllgorau Apeliadau Sefydlu eu cynnal yn gyhoeddus fel arfer yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol.

- **Didueddrwydd.** Mae Pwyllgorau'n ddiduedd, a chânt eu datblygu i sicrhau cydbwysedd teg yn eu haelodaeth.
- **Cyfle Cyfartal.** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llwyr i gyfle cyfartal ac anwahaniaethu.

Cynhelir Pwyllgorau yn Gymraeg ar gais yr athro neu athrawes.

- **Cyfrinachedd.** Yn ddarostyngedig i'r angen i sicrhau cyfiawnder a thegwch, mae aelodau a swyddogion y Cyngor yn ymrwymedig i barchu natur gyfrinachol pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag apeliadau Sefydlu, cyhyd â phosibl pan gynhelir gwrandawriadau'n gyhoeddus.

Caiff yr holl dystiolaeth, papurau a chofnodion eu storio'n gyfrinachol ac yn ddiogel.